

SAMUEL, CHRISTMAS (1674 - 1764), gweinidog Annibynnol

Enw: Christmas Samuel
Dyddiad geni: 1674
Dyddiad marw: 1764
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd ym mhlwyf Llanegwad, Sir Gaerfyrddin, 1674. Hanoedd o deulu cefnog ei amgylchiadau. Daeth i'r eiddo a bu fyw ar ei dir ei hun ar hyd ei oes. Tybir iddo fod yn ysgol [William Evans](#) ym Mhencader neu Gaerfyrddin. Derbyniwyd ef yn aelod ym Mhanteg ac yno y dechreuodd bregethu. Yr oedd yn 14 oed pan fu farw [Stephen Hughes](#) a'r cof amdano'n fflam fyw yn yr eglwys. Pan ymddeolodd Thomas Bowen o'r weinidogaeth ym Mhanteg yn 1707, cydnabuwyd Christmas Samuel yn weinidog (heb urddau) ar yr achos. Bu llwyddiant mawr ar ei waith. Yn ei adroddiad o'i ymweliad â Llanegwad yn 1710, galwodd yr archddiacon Tenison ar y plwyfolion i ymwregysu i atal cynnydd yr achos llewyrchus ym Mhanteg. Ar 23 Medi 1711, derbyniodd Christmas Samuel alwad oddi wrth aelodau o bum plwyf i fod yn weinidog Panteg. Urddwyd ef yr un dyddiad, yr urddiad mwyaf annibynnol- Annibynnol y clybuwyd amdano. Aeth o nerth i nerth yn ei lafur a'i ddylanwad ac adeiladu eglwys gref yn y traddodiad Annibynnol. Ei gyd-lafurwr am dymor hir oedd [Milbourne Bloom](#). Rhoes ei nawdd dros amryw o achosion bychain. Yr oedd yn gefn i bob mudiad dyrchafol a llesol mewn cymdeithas ac eglwys; pleidiai'n selog ysgolion [Griffith Jones](#), ac yr oedd yn un o noddwyr pennaf y dadeni llenyddol rhwng Tywi a Theifi ddiwedd yr 17eg ganrif a hanner cyntaf y 18fed. Cysylltir ei enw ag argraffwaith [Isaac Carter](#) yn Nhrefhedyn. Bu ganddo law arbennig mewn cyhoeddi llyfrau, megis *Gemau Doethineb*, 1714; *Llythyr at y Cyfryw o'r Byd*, 1716; *Catecism o'r Scrythur*, 1719; *Llun Agrippa*, 1723; *Golwg ar y Testament Newydd*, 1729; *Y Cyfrif Cywiraf o'r Pechod Gwreiddiol*, 1730; ac eraill. Bu farw 18 Mehefin 1764, yn 90 oed. Bu'n ddall yn ei bum mlynedd olaf.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

Y Dysgedydd, Rhagfyr 1935, Ionawr, Chwefror, a Mawrth 1936

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 457-8

hen lyfr eglwys Panteg yn LI.G.C.

Gweithiau

James Lewis, Christmas Samuel, *Y cyfrif cywiraf o'r pechod-gwreiddiol, i geisio rhagflaenu twyll a hudoliaeth rhyw bapurun cableddus na fyn neb ei arddel, heb na thâd na mam, ond y press; heb nag enw nag amser wrtho: yn dwyn yr enw Cyfrif cywir o'r pechod gwreiddiol, fel swm y peth y mae yn ei gynnwys yntho, yr hwn sydd yn llwyr anheilwng o'r fath enw. Canys y mae'n cyfeiliorni'n ddirfawr yn ei gylch, ag yn crybwyll am bechod gweithredol Adda yn ei le ef* (Caerfyrddin 1730)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5111419](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

